# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 21 Medi 2016

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09:15-09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad:

(09.30-10.15) (Tudalennau 1 - 18)

Julie James AC, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth
Dr Robert Hoyle, Pennaeth Prosiectiau Gwyddoniaeth
Dr Rachel Garside-Jones, Pennaeth Ymgysylltu Polisi Sgiliau

Dogfennau atodol:

Y Briff Ymchwil

EIS(5)-04-16 (p1) Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth

## Egwyl (10.15-10.30)

## 3 Papur(au) i'w nodi

3.1 **Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Bil Cymru**

(Tudalennau 19 - 31)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-04-16 (p2) Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Bil Cymru

3.2 **Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18**

(Tudalennau 32 - 34)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-04-16 p3 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18

3.3 **Llythyr oddi wrth y Llywydd ynghylch Datganiadau Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn**

(Tudalennau 35 - 36)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-04-16 p4 Llythyr oddi wrth y Llywydd ynghylch Datganiadau Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn

3.4 **Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch y goblygiadau i Gymru yn sgil penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd**

(Tudalennau 37 - 38)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-04-16 (p5) Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch y goblygiadau i Gymru yn sgil penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

## 5 Y wybodaeth ddiweddaraf am Fil Cymru

(10.30-11.30) (Tudalennau 39 - 80)

Gareth Pembridge, Cynghorydd Cyfreithiol

**Dogfennau atodol:**

Papur briffio cyfreithiol

EIS(5)-04-16 p6 Comisiynydd Traffig (ardal draffig Cymru a gorllewin canolbarth Lloegr)

## 6 Blaenraglen Waith

(11.30-12.00) (Tudalennau 81 - 84)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-04-16 (p7) Blaenraglen Waith (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## PAPUR AR GYFER PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU

## BLAENORIAETHAU O FEWN Y PORTFFOLIO SGILIAU A GWYDDONIAETH

Yn rhinwedd fy rôl fel Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, mae gennyf bortffolio eang sy'n cwmpasu ein gwaith ar sgiliau, prentisiaethau a chymorth cyflogadwyedd yn ogystal ag arloesi, gwyddoniaeth a seilwaith digidol. Nod y papur hwn yw rhoi crynodeb i aelodau'r Pwyllgor o flaenoriaethau cyffredinol fy mhortffolio ar gyfer y tymor Cynulliad hwn. Mae'r rhain yn adlewyrchu ymrwymiadau ein maniffesto ac fe'u defnyddir fel sail ar gyfer llywio'r Rhaglen Lywodraethu nesaf.

### Byddwn yn creu o leiaf 100,000 o brentisiaethau er mwyn cefnogi unigolion a helpu cyflogwyr i dyfu eu busnesau

Prentisiaethau yw ein rhaglen flaenllaw o hyd. Maent wedi bod yn effeithiol yn y farchnad ac mae cyflogwyr a phrentisiaid yn eu gwerthfawrogi'n fawr, gyda chyfraddau cwblhau fframweithiau yn aros yn gyson uchel ar fwy nag 80 y cant. Yn 2014/15, dechreuodd ychydig dros 19,500 o brentisiaid ddilyn rhaglenni dysgu yn gysylltiedig â phrentisiaeth ac roedd mwy na 44,000 o brentisiaid yn cael hyfforddiant. Rydym yn awyddus i sicrhau bod mwy o gyflogwyr yn ymrwymo i gyflogi prentisiaid yn y dyfodol, gan gydnabod mai dim ond 13% o gyflogwyr yng Nghymru sy'n cynnig prentisiaethau ar hyn o bryd.

Un elfen ganolog o'n gwaith cynllunio yw gweithio i sicrhau bod 100,000 o leoedd ar brentisiaethau pob oed ar gael yn ystod y tymor Cynulliad presennol. Nod yr ymrwymiad hwn yw sicrhau bod y sgiliau y bydd pobl yn eu meithrin drwy brentisiaeth yn cyd-fynd â'r sgiliau sydd eu hangen ar yr economi. Byddwn hefyd yn ceisio ymestyn cwmpas prentisiaethau, yn enwedig mewn sectorau twf a sectorau lle y bydd cyfleoedd swyddi yn datblygu yn y dyfodol, yn ogystal ag adeiladu ar ein gwaith ar ddarparu prentisiaethau Lefel Uwch.

Byddwn hefyd yn parhau â'n hymdrechion i gael eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch effaith ei Hardoll Brentisiaethau ar Gymru. Ceir rhai materion trawsffiniol sy'n aneglur o hyd; fodd bynnag, rwyf yn dal yn ymrwymedig i gydweithio â darparwyr a chyflogwyr er mwyn cynllunio darpariaeth a bwrw ymlaen â'n newidiadau o fewn y system. Nid ydym yn rhagweld y bydd yr Ardoll Brentisiaethau yn arwain at arian newydd nac ychwanegol i Gymru, o wybod bod y rhagolwg yn nodi bod y cyllid gan San Steffan yn debygol o leihau ar y cyfan. Mae'r maes hwn yn her sylweddol i brentisiaethau yng Nghymru ac rwy'n trafod yn rheolaidd â darparwyr a chyflogwyr er mwyn ystyried sut rydym yn cynnal ansawdd ac uniondeb prentisiaethau yng Nghymru yn sgil yr heriau hyn.

Gan adlewyrchu ein hymrwymiad cadarn i brentisiaethau, yn ogystal â'r camau a gymerwn i liniaru effaith Ardoll Brentisiaethau Llywodraeth y DU yng Nghymru, mae ein blaenoriaethau cyflawni ar gyfer 2016 i 2021 yn cynnwys:

- sicrhau bod mwy o gyflogwyr yn ymwneud â dysgu yn gysylltiedig â phrentisiaeth;
- cynyddu nifer y bobl ifanc rhwng 16 ac 19 oed sy'n dechrau prentisiaethau a nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ac yn symud ymlaen i brentisiaethau o ansawdd da;
- ymestyn cwmpas prentisiaethau, yn enwedig yn y sectorau twf a chategorïau swyddi sy'n datblygu, yn unol â'r blaenoriaethau a bennir gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol;
- meithrin sgiliau lefel uwch drwy ganolbwyntio ar brentisiaethau ar lefel 3 ac uwch sy'n tueddu i gael canlyniadau gwell, gan gynnwys Prentisiaethau Uwch sy'n cefnogi cyfleoedd technegol a phroffesiynol ar Lefel 4 ac uwch ac, ar y cyd â hynny, parhau i leihau nifer y Prentisiaethau Sylfaen (Lefel 2) yn raddol;
- datblygu'r llwybrau sgiliau hynny sy'n integreiddio prentisiaethau yn rhan o'r system addysg ehangach, gan gynnwys cyfleoedd i gydweithio'n agos ag addysg uwch.

**Byddwn yn creu rhaglen gymorth bob oed newydd sy'n ceisio meithrin y sgiliau cyflogadwyedd sydd eu hangen i gael swyddi o ansawdd.**

Nod ein rhaglen cyflogadwyedd newydd fydd helpu unigolion o bob oed i ddod o hyd i waith o ansawdd. Rydym am i'r cymorth hwn fod wedi'i deilwra i anghenion unigolion a chyd-fynd â chyfleoedd swyddi sy'n datblygu mewn cymunedau lleol, lle y bo hynny'n briodol. Ein nod yw dwyn ynghyd y gweithgareddau o'n prif raglenni cyflogadwyedd – Twf Swyddi Cymru, ReAct, Hyfforddeiaethau a'n Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd newydd – i ffurfio un rhaglen cymorth cyflogadwyedd a fydd yn sicrhau bod anghenion y rheini y mae angen cymorth arnynt i gael gwaith, cadw eu swyddi a datblygu yn y gweithle yn cael eu diwallu'n well.

Mae'r rhaglen newydd yn cael ei datblygu gan ddefnyddio'r dystiolaeth a'r ymchwil ddiweddaraf ym maes cyflawni rhaglenni effeithiol yn y farchnad lafur. Caiff ei llywio gan werthusiadau o raglenni Barod am Waith, Twf Swyddi Cymru a ReAct, y cynlluniau peilot Amodoldeb Sgiliau a gynhaliwyd gennym ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau, a'r gwerthusiad a'r adolygiad o Hyfforddeiaethau. Mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael inni o ran yr hyn sy'n gweithio.

Disgwylir i'r rhaglen bob oed ddechrau cael ei chyflawni yn 2018. Yn y cyfamser, rydym yn cynnal cyfres o brosiectau peilot er mwyn profi gallu a pharodrwydd gwahanol sectorau i arloesi ac ymateb yn hyblyg i anghenion unigolion a chyflogwyr. Rydym hefyd yn bwriadu gwneud newidiadau i rai o'n rhaglenni presennol er mwyn ein galluogi i bontio i'n rhaglen bob oed yn ddidrafferth.

Mae ein rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd newydd yn rhan o'r broses bontio hon. Mae'r rhaglen yn dilyn dull gwahanol o gyflawni, gyda mwy o ffocws ar leoliad gwaith a chymorth sy'n parhau ar ôl i unigolyn gael swydd. Cynnwys craidd y rhaglen yw lleoliad gwaith o ansawdd neu hyfforddiant sy'n benodol i gyflogwr, wedi'i gyfuno â hyfforddiant ar baratoi ar gyfer gwaith a darpariaeth sgiliau hanfodol. Bwriadwn i'r rhaglen bara o fis Medi 2016 nes y caiff y rhaglen bob oed ei lansio, a bydd yn herio rhwydwaith darparwyr Cymru i gyflawni mewn modd gwahanol, gan ffurfio cysylltiadau agosach â chyflogwyr, gyda'r nod o sicrhau canlyniadau cyflogaeth gynaliadwy i gyfranogwyr. Mae hon yn amserlen dynn ac yn rhaglen waith gymhleth ond rwy'n hyderus mai'r canlyniad fydd rhaglen sy'n fwy addas a hyblyg er mwyn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a wynebwn yn y farchnad lafur, heddiw ac yn y dyfodol.

**Byddwn yn hyrwyddo, yn hybu ac yn galluogi arloesedd a chysylltedd, sef ein hysgogwyr allweddol ar gyfer twf economaidd a chreu swyddi, ledled yr economi gyfan.**

Golygai ein strategaeth Arloesedd – Arloesedd Cymru – mai ni oedd un o'r cyntaf i fabwysiadau'r dull gweithredu Arbenigo Craff ym maes ymyriadau. Drwy hyn mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i flaenoriaethu ymyriadau strategol sy'n creu màs critigol gwirioneddol mewn meysydd lle rydym eisoes wedi nodi galluogrwydd. Mae Arloesedd Cymru hefyd yn annog busnesau yng Nghymru i edrych y tu hwnt i'r DU wrth chwilio am ddatrysiadau masnachol arloesol.

Gan ddefnyddio'r dull strategol hwn, ynghyd ag ymyriadau tactegol, rydym yn hybu'r broses o ddarganfod cyfleoedd newydd, eu harchwilio ac arbrofi â hwy. I gwmnïau a phrifysgolion, gallai hyn fod ym maes datblygu cynnyrch, arallgyfeirio neu lwybrau newydd i'r farchnad, ond bydd yn seiliedig ar dystiolaeth o gryfderau technoleg sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru.

Yn 2015, lansiwyd SMART, sef cyfres Llywodraeth Cymru o raglenni arloesedd. Y rhaglenni hyn yw Arloesi SMART, SMART Cymru ac Arbenigedd SMART. Mae SMART yn cynnig cyfres o raglenni integredig er mwyn helpu busnesau a sefydliadau ymchwil yng Nghymru i fasnacheiddio cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd a ddatblygir drwy brosesau ymchwil, datblygu ac arloesedd. Mae Arloesi SMART yn hollbwysig i gyflawni SMART Cymru (cyllid ymchwil a datblygu i fusnesau) ac Arbenigedd SMART (Cymorth ar gyfer Cydweithio â Sefydliadau Ymchwil). Mae'r rhaglen hefyd yn rhoi cyngor ar raglenni Innovate UK.

Cynyddodd y rhaglen flaenorol lefelau ymchwil a datblygu o fewn busnesau yng Nghymru yn sylweddol. Helpodd y rhaglen 1,037 o fusnesau, a lansiwyd 533 o gynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd, gyda 327 yn cael eu cofrestru, gan arwain at elw uniongyrchol o £22.1m. Hefyd, buddsoddwyd £20.8m gyda 233 o swyddi newydd yn cael eu creu. Ein nod fydd manteisio ar y cyflawniadau hyn wrth ddefnyddio Arloesedd Cymru ymhellach a defnyddio'r profiadau hyn i lywio trefniadau cyllido ym maes arloesedd sy'n gysylltiedig â Chronfeydd Strwythurol hyd at 2020 yn ogystal â chyfleoedd cyllido Horizon 2020.

Fel y soniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor, mae sicrhau bod gennym y cyfryngau cyflawni rhanbarthol cywir a phriodol i ysgogi datblygiad economaidd yn bwysig os ydym am sicrhau bod y cymorth cywir ar gael gan Lywodraeth Cymru i ysgogi datblygiad busnes. Nid yn unig y mae darparu sgiliau yn rhanbarthol yn dal yn ffocws polisi allweddol wrth edrych i'r dyfodol, ond mae'n rhan o agenda sy'n datblygu yng nghyd-destun tirwedd sgiliau gyfnerthedig a arweinir gan Lywodraeth y DU ac sydd â ffocws rhanbarthol.

Felly, byddaf yn parhau i gefnogi'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fel system bwysig a arweinir gan alw ar gyfer dwyn ynghyd y galw gan gyflogwyr am sgiliau a hyfforddiant i lywio'r cyflenwad o ddarpariaeth ar lefel ranbarthol. Bydd y cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol yn parhau i lywio penderfyniadau cynllunio gan ddarparwyr ac yn cynnig sylfaen dystiolaeth hollbwysig ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn sgiliau yn y dyfodol. Bydd y dull gweithredu hwn hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i gysoni darpariaeth sgiliau ranbarthol â chyfleoedd buddsoddi a thwf, gan gynnwys y blaenoriaethau a nodwyd gan Ardaloedd Menter, Dinas-ranbarthau a phosibiliadau i gydweithio'n drawsffiniol, er enghraifft gyda Phartneriaeth Menter Leol (LEP) Swydd Gaer a Warrington a Northern Powerhouse.

Fy mwriad i yw y bydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn parhau i chwarae rôl hanfodol o ran cyflwyno safbwynt cyflogwr annibynnol ar bolisïau a systemau cyflawni ym maes cyflogaeth a sgiliau ôl-16. Yn ogystal ag ymgysylltu'n agos â chyflogwyr ar eu hanghenion o ran sgiliau, byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith cyfathrebu digidol cyflym a dibynadwy er mwyn gwella cysylltedd ymhellach ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys meysydd megis band eang cyflym iawn, telathrebu symudol a seilwaith dosbarth busnes, gan hwyluso cysylltedd safleoedd yng Nghymru a gweddill y byd.

Rydym yn darparu seilwaith digidol drwy nifer o brosiectau a chynlluniau sydd â'r nod o wella cysylltedd safleoedd preswyl, busnesau o bob maint a gwasanaethau cyhoeddus. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Cyflymu Cymru, sydd wedi galluogi 600,000 o safleoedd ledled Cymru i gael gafael ar fand eang ffeibr cyflym hyd yma.
- Ein gwaith gydag Airband, sy'n arbenigo mewn band eang di-wifr cyflym, i gyflenwi i 2000 o safleoedd mewn parciau busnes ac ystadau diwydiannol ledled Cymru, y disgwylir iddo gael ei gwblhau ar ddechrau hydref 2016.
- Allwedd Band Eang Cymru (ABC), sef cynllun grant sy'n ariannu (neu'n ariannu'n rhannol) costau gosod cysylltiadau band eang newydd i gartrefi a busnesau yng Nghymru sy'n sicrhau newid sylweddol o ran cyflymder lawrlwytho.
- Y cynllun Taleb Gwibgyswllt, sydd ar gael i fusnesau ledled Cymru er mwyn helpu i dalu'r costau cyfalaf cychwynnol yr eir iddynt wrth osod gwasanaethau band eang cyflym iawn.

O ran gwasanaethau dyfeisiau symudol, byddaf yn parhau i ymgysylltu â gweithredwyr y rhwydwaith dyfeisiau symudol er mwyn nodi'r hyn y gellir ei wneud i ymestyn gwasanaeth dyfeisiau symudol ar gyfer llais a data mor eang â phosibl ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys pwyso ar Ofcom, drwy gyfarfodydd ac ymatebion i ymgynghoriadau, i ddefnyddio ei bwerau rheoleiddiol er mwyn gwella gwasanaeth dyfeisiau symudol ledled Cymru, gan gynnwys galw am gynnwys rhwymedigaethau o ran cwmpas daearyddol mewn arwerthiannau sbectrwm yn y dyfodol.

**Byddwn yn defnyddio ymchwil a darganfyddiadau gwyddonol i ddatblygu syniadau ac ymyriadau arloesol a fydd yn helpu i wella ein hiechyd, diogelu ein hamgylchedd naturiol a chyfrannu at ein ffyniant yn y dyfodol.**

Ceir tystiolaeth sylweddol bod sylfaen ymchwil gadarn yn sail i economi ffyniannus, yn cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol gwell ac yn arddangos Cymru fel cenedl fodern, bywiog ac arloesol. Ers cyhoeddi *Gwyddoniaeth i Gymru* ym mis Mawrth 2012, mae polisi Llywodraeth Cymru wedi bod â ffocws clir ar hybu ansawdd a swm gwaith ymchwil ym mhrifysgolion Cymru,

yn enwedig ymchwil ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg (a meddygaeth) neu bynciau STEM(M).

Lansiwyd 'Sêr Cymru', sef ein cynllun cychwynnol i ehangu cryfder gwaith ymchwilio Cymru, ar ddechrau 2013 a bwriedir iddo barhau tan fis Mawrth 2018. Mae gan bedwar academydd o'r radd flaenaf Gadeiriau Ymchwil Sêr Cymru bellach, a hyd yma maent wedi denu tua £12 miliwn o arian grant ymchwil a enillwyd yn gystadleuol i Gymru. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd â phartneriaid busnes ac addysg uwch, wedi ennill un o'r grantiau mwyaf eto o raglen COFUND Marie Skłodowska-Curie Horizon 2020 yr UE – tua €9.5 miliwn (yn agos i €24.1 miliwn gydag arian cyfatebol). Rwy'n bwriadu cydweithio â rhanddeiliaid er mwyn adeiladu ar lwyddiant ein buddsoddiadau presennol drwy Sêr Cymru yn ogystal â phrosiectau ymchwil eraill gan wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ymchwil sy'n dod i Gymru.

Elfen arall sy'n helpu i hybu gallu ymchwilio a manteisio ar ganlyniadau ymchwil yw dwy Ganolfan Gatapwlt. Mae'r canolfannau hyn ar flaen y gad yn fyd-eang, a'u bwriad yw trawsnewid gallu'r DU i arloesi mewn meysydd penodol ac ysgogi twf economaidd. Mae Innovate UK wedi dyfarnu i Ganolfan ragoriaeth ranbarthol ym maes Meddygaeth Fanwl gael ei lleoli yng Nghaerdydd. Ar ben hynny, yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth y DU Gatapwlt Lled-ddargludyddion Cyfansawdd y bydd Cymru yn ei arwain.

Cefnogir gweithgareddau ymgysylltu STEM, sy'n annog ac yn ysbrydoli pobl ifanc ym maes gwyddoniaeth drwy ein Hacademi Wyddoniaeth Genedlaethol. Mae gan yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol bortffolio o tua 20 o brosiectau gan gynnwys prosiectau strategol y tu allan i'r cais am geisiadau grant drwy broses gystadleuol (rhai blaenorol llwyddiannus yn aml). Mae ymgysylltu STEM hefyd yn cyd-fynd ag addysg ffurfiol ac yn cefnogi'r gwaith o'i diwygio, sef cyflwyno cwricwlwm diddorol ar gyfer y gwyddorau, gyda chymwysterau cadarn sy'n uchel eu parch. Byddaf yn cydweithio ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, ac yn defnyddio arbenigedd Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru a'i thîm wrth lunio datblygiadau yn y maes hwn.

Mae'r papur hwn yn rhoi cipolwg ar y gwaith cadarnhaol a hynod werthfawr a wneir ar bob un o'r blaenoriaethau allweddol yn fy mhortffolio Sgiliau a Gwyddoniaeth. Nid yw'r blaenoriaethau a restrir yn hollgynhwysfawr o bell ffordd, ac yn ddiau cânt eu ffurfio ymhellach wrth inni gyhoeddi ein Rhaglen Lywodraethu a llunio ein strategaethau trawsbynciol, gan weithio gyda holl adrannau Llywodraeth Cymru. Gobeithiaf y gall aelodau'r Pwyllgor gydnabod y cyflawniadau a wnaed hyd yn hyn a chefnogi'r cyfeiriad y byddwn yn mynd iddo yn y dyfodol er mwyn cyflawni ein prif nodau.

**Julie James AC**
**Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Russell George AC
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

18 Gorffennaf 2016

Annwyl Russell

**Bil Cymru**

Ar hyn o bryd, rydym yn craffu ar Fil Cymru wrth iddo barhau ar ei daith drwy Senedd y DU. Daeth y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 11 Gorffennaf, ac rydym yn rhagweld y bydd y cyfnod adrodd a'r trydydd darlleniad yn digwydd ym mis Medi, cyn i'r Bil fynd yn ei flaen i Dŷ'r Arglwyddi.

Rydym eisoes wedi cael tystiolaeth gan ystod o academyddion ac arbenigwyr cyfreithiol, fel y Prif Weinidog a'r Llywydd. Rydym hefyd wedi gwahodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru i roi tystiolaeth. Fodd bynnag, hyd yma, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwrthod y gwahoddiad.

Gwnaethom gynnal digwyddiad ardderchog yng nghwmni rhanddeiliaid i drafod y Bil yn Siambr Hywel yn gynharach y mis hwn, gan ddwyn ynghyd rhanddeiliaid o'r proffesiwn cyfreithiol, y byd academaidd a'r meysydd polisi datganoledig. Er mwyn adeiladu ar y digwyddiad hwn, rydym wedi lansio fforwm ymgysylltu ar-lein i barhau â'r drafodaeth gyda rhanddeiliaid wrth i'r Bil fynd rhagddo.

Roedd ein rhagflaenydd ni fel Pwyllgor yn gallu tynnu ar y gwaith rhagorol a wnaethpwyd gan eich rhagflaenydd chi fel Pwyllgor wrth drafod y Bil drafft. Roedd gwaith y pwyllgorau yn arbennig o ddefnyddiol, yn enwedig wrth ystyried effaith cymalau cadw penodol ar bolisi o fewn eu cylchoedd gwaith ac ar y gallu i lunio cyfreithiau dealladwy a chydgysylltiedig. Amgaeaf gopi o'r ohebiaeth hon er gwybodaeth i chi.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Byddem, felly, yn croesawu clywed unrhyw sylwadau sydd gennych ar Fil Cymru, yn arbennig o ran effaith y cymalau cadw ar eich cylchoedd gwaith a'r cwestiwn a yw gwaith craffu cyn deddfu wedi newid y sefyllfa a amlinellwyd mewn llythyrau gan eich rhagflaenydd fel Pwyllgor.

Mae ein Pwyllgor yn gobeithio dylanwadu ar waith Tŷ'r Arglwyddi wrth graffu ar y Bil, yn ogystal â chyfoethogi dadl y Cynulliad pan fydd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei gyflwyno. Er nad oes gennym amserlen benodol ar gyfer ein trafodaethau, os ydych yn dymuno ymateb, mi fyddai o gymorth i ni pe bai'r wybodaeth hon yn dod i law yn ystod wythnosau cyntaf tymor yr hydref.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS
Swyddfa Cymru
Tŷ Gwydyr
Whitehall
Llundain
SW1A 2NP

16 Tachwedd 2015

Annwyl Stephen,

**Bil Cymru drafft**

Manteisiodd y Pwyllgor Menter a Busnes ar y cyfle i drafod Bil Cymru drafft yn ein cyfarfod ar 5 Tachwedd 2015.

Rydym yn deall mai bil drafft yw hwn, a'i fod ymhell o fod yn gynnyrch gorffenedig. Serch hynny mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol ynglŷn â'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Deallaf y bydd rhagor o drafodaethau'n cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru, ond teimlwn nad oes modd inni roi sylwadau arno heb ragor o eglurhad oherwydd bod cymaint o amwysedd yn y drafftio mewn llawer o feysydd.

Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad sy'n arwain o ran y 'profion' sy'n berthnasol i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, felly rwyf wedi cyfyngu sylwadau cychwynnol y Pwyllgor i'r cymalau cadw sy'n ymwneud â'n cylch gwaith ni.

Yn nhrafodaeth y pwyllgor, roedd ystafell yn llawn o ddeddfwyr profiadol yn ei chael yn anodd deall yr hyn y mae'r bil yn ei wneud a'r hyn y mae'n ceisio ei wneud. I'r rhai nad ydynt wedi arfer darllen a drafftio cyfreithiau, mae'n anodd iawn ei ddeall yn ei ffurf bresennol. Mae eglurder ac ymarferoldeb yn egwyddorion pwysig o safbwynt deddfwriaeth, ac rwyf yn siŵr y gellir gwneud mwy yn y cyswllt hwn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddBusnes@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEcon@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEcon
0300 200 6565

Rhestrir y materion y cynigir eu cadw'n ôl yn Atodlen 7A o'r Bil drafft ac mae nifer o'r rhain, sydd wedi'u grwpio o dan dri phrif bennawd: Masnach a Diwydiant, Trafnidiaeth, a Chyflogaeth, yn effeithio'n uniongyrchol ar nifer o feysydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Yn Atodiad A rwyf wedi rhoi crynodeb o'r pryderon sydd gan y Pwyllgor yn y meysydd hynny, ynghyd â chwestiynau penodol. Rwyf yn ysgrifennu yn y gobaith y bydd eich swyddfa'n rhoi arweiniad clir i'r Pwyllgor ynglŷn ag effaith y darpariaethau ar gymhwysedd presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac esboniad pan fo'r cymhwysedd wedi'i leihau.

Mae'r cwestiynau hyn yn nodi ein pryderon cychwynnol ynghylch cwmpas y Bil. Rhagwelwn y byddwn yn cael rhagor o drafodaethau fel pwyllgor pan fydd mwy o fanylion ar gael, a byddaf yn ysgrifennu atoch wrth i'r Bil fynd rhagddo.

Cofion cynnes,



William Graham

Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes

Cc. David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

David Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig

**Bil Cymru Drafft – Y Pwyllgor Menter a Busnes**

**Atodiad A**

Mae Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gofyn am eglurhad ynglŷn â'r meysydd penodol canlynol ym Mil Cymru drafft:

**Atodlen 7A – Pennawd C – Masnach a Diwydiant**

**1.0 Adran C6 Diogelu defnyddwyr**

1.1 Mae'r eithriad presennol yn Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn rhwystro'r Cynulliad rhag deddfu ynghylch *'consumer protection, including the sale and supply of goods to consumers, consumer guarantees, hire purchase, trade descriptions, advertising and price indication ............'*

1.2 Mae'r setliad newydd yn cynnwys disgrifiad manylach o'r hyn y mae'r cymal cadw 'diogelu defnyddwyr' yn ei gynnwys. Er enghraifft mae mater a gedwir yn ôl 70 yn y setliad newydd yn cynnwys y geiriau ychwanegol 'supply of services to consumers'.

1.3 Nid yw'r geiriau hyn i'w gweld yn yr eithriad presennol mewn perthynas â diogelu defnyddwyr yn Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, ac mae geiriad y mater hwn a gedwir yn ôl felly yn gulach.

**Hoffai'r Pwyllgor gael eglurhad a yw cyflenwi gwasanaethau i ddefnyddwyr yn berthnasol yng nghyd-destun Deddf Gwerthu Nwyddau 1979 yn unig ynteu a fwriedir iddo fod yn gymwys yn ehangach ar draws gwahanol fathau o wasanaethau i ddefnyddwyr yn fwy cyffredinol, e.e. gwasanaethau bws ac ati.**

1.4 Yn ogystal, mae'r setliad newydd yn cynnwys y geiriau *'safety of, and liability for, services supplied to consumers'.* Nid yw'r geiriau hyn ychwaith i'w cael ar hyn o bryd yn Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, ac felly **maent yn lleihau** cymhwysedd y Cynulliad.

**Mae'r Pwyllgor yn dymuno deall pam mae'r cymhwysedd hwn yn cael ei leihau.**

1.5 Mewn perthynas â mater a gedwir yn ôl 72 a'r cyfeiriad at 'werthwyr tai', gall y Cynulliad ar hyn o bryd ddeddfu ym maes hyrwyddo busnes a chystadleurwydd ac nid oes cyfeiriad penodol at werthwyr tai yn Atodlen 7.

Mae potensial felly i'r mater hwn a gedwir yn ôl **leihau** cymhwysedd y Cynulliad mewn perthynas â gwerthwyr tai.

**Mae'r Pwyllgor yn dymuno deall y bwriad y tu ôl i'r potensial hwn i leihau cymhwysedd.**

## 2.0 Cymal cadw C7 Safonau a diogelwch cynnyrch, ac atebolrwydd

2.1 Mae'r mater a gedwir yn ôl yn y setliad newydd yn cyfeirio at *'technical standards and requirement in relation to products in pursuance of an obligation under EU law'*

2.2 Nid yw'n glir a yw'r mater hwn a gedwir yn ôl yn cael yr effaith o atal y Cynulliad rhag gwneud deddfwriaeth sy'n rhoi'r Gyfarwyddeb Safonau Technegol ar waith.

**Byddai'r pwyllgor yn croesawu rhagor o eglurhad ynglŷn â chwmpas mater a gedwir yn ôl 75.**

2.3 Nid yw'r canlynol yn eglur – *'the national accreditation body and the accreditation of bodies which certify or assess conformity to technical standards in relation to products or environmental management systems.'*

**Byddai'r pwyllgor yn croesawu rhagor o eglurhad ynglŷn ag ystyr mater a gedwir yn ôl 76.**

## 3.0 Adran C12 Ardaloedd a gynorthwyir a chyfyngiadau ar gymorth ariannol i ddiwydiant

3.1 Mae mater a gewir yn ôl 89 yn cyfyngu cymhwysedd y Cynulliad mewn perthynas â:

*Section 1 and Section 8(5) (7) of the Industrial Development Act 1982 ('the 1982' Act)*

3.2 Mae Adran 1 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy Orchymyn, bennu unrhyw ardal o Brydain yn ardal ddatblygu neu'n ardal ganolradd. Yn ogystal, mae Adran 8 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ariannol ar gyfer diwydiant.

3.3 Er bod pwerau gweithredol yn cael eu cadw ar gyfer Gweinidogion Cymru o dan Adran 8 o Ddeddf 1982, fe allai'r ffaith bod pwnc Deddf 1982 wedi ei gynnwys **gulhau gallu'r Cynulliad i ddeddfu o dan** eiriad presennol Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru a'r pennawd cyffredinol 'adfywio a datblygu economaidd'.

**Mae'r Pwyllgor yn dymuno deall pam mae gallu'r Cynulliad i ddeddfu yn cael ei gulhau mewn perthynas â Deddf Datblygu Diwydiannol 1982.**

3.4 **C15: Cymorth mewn cysylltiad ag allforio nwyddau a gwasanaethau ac ati**

3.5 Mae mater a gedwir yn ôl 92 yn ymwneud â phwnc Deddf Gwarantau Allforio a Buddsoddi 1991. Mae gan Weinidogion Cymru rai pwerau o dan Ddeddf 1991 sy'n eu galluogi i gefnogi allforwyr. Yn ogystal, mae rhai o ddarpariaethau Deddf 1991 o fewn cymhwysedd presennol y Cynulliad ym maes datblygu economaidd, yn benodol hyrwyddo busnes a chystadleurwydd*.* Mae hyn felly'n **lleihau** cymhwysedd y Cynulliad.

**Mae'r Pwyllgor yn dymuno deall pam mae'r cymhwysedd hwn yn cael ei leihau ac mae angen i gwmpas y mater hwn a gedwir yn ôl fod yn eglur.**

## 4.0 Pwerau newydd ym maes Trafnidiaeth

4.1 O dan y setliad newydd, byddai'r Cynulliad yn **ennill cymhwysedd i ddeddfu** mewn perthynas â'r meysydd a ganlyn:

- Cofrestru gwasanaethau bysiau lleol, a gweithredu a gorfodi amodau rheoleiddio traffig mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny
- Terfynau cyflymder – heblaw am eithriadau rhag terfynau cyflymder h.y. terfynau cyflymder ar gyfer y gwasanaethau brys
- Trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat
- Trwyddedu gweithredwyr cerbydau hurio preifat
- Harbyrau, ond nid safonau diogelwch mewn harbyrau

4.3 O dan y Bil drafft, rhoddir **pwerau gweithrediaeth ychwanegol i Weinidogion Cymru** mewn perthynas â'r meysydd a ganlyn:

- terfynau cyflymder
- harbyrau Cymru

- rhai swyddogaethau gweithrediaeth penodol mewn perthynas â thacsis
- rhai swyddogaethau gweithrediaeth penodol mewn perthynas â Chomisiynwyr Traffig

**Mae'r pwyllgor yn croesawu'r pwerau ychwanegol hyn i'r Cynulliad ddeddfu yn y pynciau penodol hyn a'r cynnydd ym mhwerau gweithrediaeth Gweinidogion Cymru mewn perthynas â hwy.**

Mae'r canlynol yn nodi barn y Pwyllgor ynghylch cymalau cadw penodol o dan Bennawd E – Trafnidiaeth yn y Bil drafft.

### 5.0 Adran E1 Trafnidiaeth ffyrdd

5.1 Mae mater a gedwir yn ôl 111 yn ymwneud â thrwyddedu gyrwyr ac mae'n cynnwys hyfforddiant, profi ac ardystio. O dan Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ar y llaw arall, cyfeirir ato fel 'trwyddedu gyrwyr' yn unig.

5.2 Mae'r geiriad, felly, yn gulach o dan y setliad newydd, a gallai'r ffaith bod y gair 'training' wedi'i gynnwys effeithio ar allu'r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd.

5.3 Mae hyn felly yn **lleihau cymhwysedd y Cynulliad** ac mae angen i gwmpas y mater hwn a gedwir yn ôl fod yn fwy eglur.

**Byddai'r pwyllgor yn croesawu rhagor o eglurhad ynglŷn â chwmpas y mater hwn a gedwir yn ôl. Hefyd, ceisir eglurhad y bydd y Cynulliad yn gallu parhau i ddeddfu mewn perthynas â hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd.**

**5.4** Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn nodi y ceir mater penodol a gedwir yn ôl, 117, ar gyfer arwyddion traffig. Nid yw hyn i'w weld yn rhesymegol, o ystyried y pwerau newydd ar derfynau cyflymder yn gyffredinol.

**Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o eglurhad ynglŷn â'r hyn a fwriedir.**

### 6.0 Adran E2 Trafnidiaeth rheilffyrdd

6.1 Mae'r eithriad presennol o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru, yn cyfeirio at ddarparu a rheoleiddio gwasanaethau rheilffyrdd. O dan y setliad newydd, mae mater a gedwir yn ôl 123 yn nodi *'railway services'* yn unig.

6.2 Mae hyn felly, yn **lleihad posibl** mewn cymhwysedd ac mae angen eglurhad pellach ynghylch cwmpas y mater hwn.

**Byddai'r pwyllgor yn croesawu rhagor o eglurhad ynglŷn â chwmpas y mater hwn a gedwir yn ôl, ac mae'n awyddus i ddeall bwriad y lleihad arfaethedig hwn o ran cymhwysedd.**

**7.0 E3 Trafnidiaeth ar y môr ac ar ddyfrffyrdd**

7.1 Mae'r eithriad presennol o dan Atodlen 7, yn cyfeirio at longau, ac mae dau eithriad penodol sy'n ymwneud â chymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau llongau i Gymru ac o Gymru neu o fewn Cymru, a rheoleiddio'r defnydd o longau sy'n cludo anifeiliaid. Fodd bynnag, yn y setliad newydd, mae'r mater a gedwir yn ôl wedi'i eirio fel a ganlyn *'shipping and other marine and waterway transport including the subject matter of…'* Mae hyn felly'n **lleihau** cymhwysedd y Cynulliad**.**

**Mae'r Pwyllgor yn dymuno deall pam mae'r cymhwysedd hwn yn cael ei leihau.**

7.2 Nid yw geiriad mater a gedwir yn ôl 128 mewn perthynas â gwasanaethau chwilio ac achub a gwasanaethau gwylwyr y glannau yn eglur.

**Byddai'r pwyllgor yn croesawu eglurhad pam nad yw'r ymadrodd hwn yn cynnwys y gwasanaethau tân ac achub.**

**8.0 E6: materion eraill**

8.1 Mae'r eithriad presennol yn Atodlen 7 yn cyfeirio at fanyleb dechnegol ar gyfer tanwydd i'w ddefnyddio mewn peiriannau mewndanio, ac mae mater a gedwir yn ôl 137 yn y setliad newydd yn cyfeirio at yr un peth, fel a ganlyn:

*'technical specifications for fuel or other energy sources or processes for use in road, rail, marine waterway or air transport'*

8.2 Mae geiriad y setliad newydd yn fwy cyfyng ac yn cynnwys mathau ehangach eraill o deithio, ac yn cyfeirio at yriant heblaw peiriannau mewndanio, felly mae yma **leihad** o ran cymhwysedd*.*

**Mae'r Pwyllgor yn dymuno deall pam mae'r cymhwysedd hwn yn cael ei leihau.**

## 9.0 Rheoleiddio bysiau

Mae'r potensial ar gyfer rheoleiddio bysiau yng Nghymru yn faes y bu gan y Pwyllgor ddiddordeb ynddo eisoes, ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod angen rhagor o bwerau. Gweler isod enghraifft a gafodd Pwyllgor yn dangos sut y gallai maes rheoleiddio bysiau gael ei ystyried yn y setliad newydd.

9.1 Enghraifft: *O dan y setliad newydd, mae modd i'r Cynulliad ddeddfu ynghylch cofrestru bysiau lleol. At hynny, dywedodd yr Adran Drafnidiaeth wrth y Pwyllgor ym mis Medi 2015 ei bod yn credu bod gan y Cynulliad/Gweinidogion Cymru bwerau i reoleiddio bysiau eisoes.*

9.2 *Yn y ddeddfwriaeth bresennol, mae pwerau gweithrediaeth cyfyngedig fel y gall Gweinidogion Cymru/awdurdodau lleol gydgysylltu gweithrediadau bysiau. Ceir y pwerau hynny yn y Ddeddf Drafnidiaeth a Deddf Trafnidiaeth Leol 2008, ac maent yn cynnwys Partneriaethau Gwirfoddol a Statudol a Chontractau Ansawdd Statudol.*

9.3 *Mewn egwyddor, dylai'r ddau ddull uchod ganiatáu ar gyfer rheoleiddio bysiau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cafeat i hyn. Y rheswm am hyn yw bod rhai o'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â rheoleiddio yn cynnwys y posibilrwydd y gellid capio a rheoleiddio prisiau tocynnau a thocynnau integredig. Nid yw'n glir a fyddai meysydd fel hyn yn rhan o'r cymalau cadw canlynol:*

***C3: Competition: reservation 67*** *'Regulation of anti-competitive practices and agreements; abuse of dominant position; monopolies and mergers.*

***C6: Consumer protection: reservation 70*** *'Regulation of the sale and supply of……. services to consumers'*

**Byddai'r pwyllgor yn croesawu eglurhad y bydd y Bil drafft yn caniatáu ar gyfer rheoleiddio bysiau yng Nghymru ac y bydd hefyd yn cynnwys meysydd fel prisiau**

**tocynnau a thocynnau integredig nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cymalau cadw uchod, os digwydd i'r Cynulliad fynd ar drywydd opsiwn o'r fath yng Nghymru.**

**10.0. Atodlen 7A – Pennawd H – Cyflogaeth**

10.1 **Adran H1 – Cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol**

10.2 Ar hyn o bryd, caiff y Cynulliad ddeddfu ar 'bynciau tawel' (pynciau nad ydynt wedi'u datganoli, nac yn eithriadau o dan Atodlen 7) ar yr amod eu bod yn ymwneud â phwnc a roddwyd o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru a'r setliad presennol.

10.3 Cadarnhawyd hyn gan benderfyniad y Goruchaf Lys yn achos Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 lle dyfarnwyd bod y Ddeddf o fewn cymhwysedd er ei bod yn ymwneud ag 'amaethyddiaeth', sy'n bwnc datganoledig a 'chyflogaeth', sy'n bwnc tawel.

10.4 Yn y setliad newydd mae pwnc tawel 'cyflogaeth' wedi dod yn fater penodol a gedwir yn ôl o dan Bennawd H *'Employment rights and duties and industrial relations including the subject of……….'* [yna cyfeirir at restr o ddeddfwriaeth benodol ynghylch cyflogaeth].

10.5 At hynny, mae eithriad penodol wedi'i wneud i'r cymal cadw hwn sy'n eithrio pwnc Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ac yn gwarchod pwnc y Ddeddf hon.

10.6 Mae cynnwys 'cyflogaeth' yn fater a gedwir yn ôl yn y setliad presennol ar y cyd â'r profion deddfwriaethol newydd yn **lleihad sylweddol** o ran cymhwysedd y Cynulliad yng nghyd-destun cyflogaeth.

10.7 Mae Pennawd arall hefyd yn y setliad newydd, sef 'Y Proffesiynau', sy'n cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol fel mater na ellir deddfu yn ei gylch. I bob golwg, mae hwn yn gymal cadw ehangach na'r eithriad presennol yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

10.8 Rhoddwyd yr enghraifft ganlynol i'r Pwyllgor i ddangos sut y gallai Bil arfaethedig gael ei ystyried o dan y setliad newydd:

- *Gallai Bil Cynulliad geisio deddfu ar gyflogau, amodau a hyfforddiant yn y sector gofal cymdeithasol mewn modd tebyg i Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.*

- *O dan y setliad presennol, ac yng ngoleuni dyfarniad y Goruchaf Lys ar Ddeddf 2014, byddai Bil sy'n ymwneud â'r sector gofal cymdeithasol o fewn cymhwysedd.*
- *Yn yr Atodlen 7A arfaethedig, o dan Bennawd H, Adran H1, mae hawliau a dyletswyddau cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol yn faterion a gedwir yn ôl. Golyga hynny y gallai'r Bil fod* ***y tu allan i gymhwysedd.***
- *Mae'r unig eithriad i bwnc Deddf 2014 yn gwneud hyn yn fwy tebygol,* ***gan awgrymu, er bod cyflogau amaethyddol, gwyliau a hyfforddiant o fewn cymhwysedd, y bydd y rhain yn faterion a gedwir yn ôl mewn sectorau eraill.***

**Mae'r Pwyllgor yn dymuno deall pam mae'r cymhwysedd hwn yn cael ei leihau o ran deddfu ar 'byncia u tawel', megis cyflogaeth, ar yr amod eu bod 'yn ymwneud â' phwnc a roddwyd o dan Atodlen 7. Mae hyn yn peri cryn bryder i'r Pwyllgor.**

## 11.0 Adran H3 – Chwilio am swyddi a chymorth

11.1 Mae mater a gedwir yn ôl 156: 'Trefniadau ar gyfer cynorthwyo pobl i ddewis cyflogaeth, hyfforddi ar ei chyfer, ei chael a'i chadw, ac i gael gweithwyr addas' o bosibl yn culhau cymhwysedd y Cynulliad ar ddatblygu economaidd o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

**Mae'r Pwyllgor yn dymuno deall beth y disgwylir i'r mater hwn a gedwir yn ôl ei gwmpasu.**

## 12.0 Meysydd penodol o ansicrwydd mewn perthynas â phwerau gweithrediaeth

12.1 Yn y Bil drafft, nid ymdrinnir â datganoli Masnachfraint Cymru a'r Gororau nac â throsglwyddo swyddogaethau gweithrediaeth Gweinidogion Cymru.

12.2 Yn ôl cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi a pharagraff 2.5.10 o'r ddogfen Pwerau at Bwrpas:

12.3 *'Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn datganoli swyddogaethau masnachfreinio i Lywodraeth Cymru i'w galluogi i arwain gwaith caffael a rheoli masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau.'*

**Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch sut y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu datganoli swyddogaethau gweithrediaeth i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Masnachfraint Cymru a'r Gororau, o ystyried nad oes darpariaeth yn y Bil drafft ar gyfer hyn.**

12.4 Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn y gorffennol am newid Deddf Rheilffyrdd 1993 a fyddai'n caniatáu i gyrff yn y sector cyhoeddus gynnig am gontractau masnachfraint. Byddai hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn yr Alban lle darperir ar gyfer masnachfraint yng nghymal 49 o Fil yr Alban 'Rail: franchising of passenger services'. Nid oes darpariaeth debyg wedi'i gwneud yn y Bil drafft.

12.5 Wrth drafod goblygiadau Comisiwn Smith i Gymru, dywedodd cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi y byddai dadansoddiad yn cael ei wneud o argymhellion perthnasol Comisiwn Smith yng nghyd-destun Cymru fel y gellir gwneud penderfyniadau yn fuan yn y Senedd nesaf ynghylch pa argymhellion i'w rhoi ar waith yng Nghymru.

12.6 Dywedodd swyddogion yr Adran Drafnidiaeth wrth y Pwyllgor ym mis Medi 2015 fod y mater yn cael ei drafod: *"the UK Government agreed to consider which non-fiscal parts of the Smith Commission agreement, including that commitment, might be implemented for Wales. That consideration is on-going, and further discussions with the Welsh Government will take place shortly in the context of preparing the Wales Bill".*

**Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch pa gynnydd a wnaed o ran cynnwys y ddarpariaeth hon yn adroddiad Comisiwn Smith ym Mil Cymru.**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid
National Assembly for Wales
Finance Committee

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

18 Gorffennaf 2016

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18**

Yn ein cyfarfod ar 14 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor Cyllid ar y ffordd orau o graffu ar y gyllideb. Rwy'n ysgrifennu at holl Gadeiryddion y Pwyllgorau i rannu ein syniadau ac i annog eich pwyllgorau i ystyried sut y gallant gyfrannu at gyflawni'r gwaith craffu mwyaf rhesymegol ac effeithiol ar gynlluniau gwariant y Llywodraeth.

**Rhoi sylw i'r gyllideb**

Yn y Pedwerydd Cynulliad cytunodd yr holl Bwyllgorau i fabwysiadu dull cydgysylltiedig ar gyfer craffu ar y gyllideb yn seiliedig ar y perfformiad a'r canlyniadau sydd i'w sicrhau gyda'r adnoddau sydd ar gael, a'r blaenoriaethau a nodwyd gan y cyhoedd yn gyffredinol (yn seiliedig ar adborth o waith ymgysylltu).

Roedd y dull hwn yn ymwneud â'r pedair egwyddor o ran craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses. Defnyddiwyd yr egwyddorion hyn yn sail i holl bapurau briffio, sesiynau tystiolaeth ac adroddiadau'r Pwyllgor. Yr egwyddorion yw:

- **Fforddiadwyedd** – edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol;
- **Blaenoriaethu** – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol y gellir ei chyfiawnhau?

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

- **Gwerth am arian** – yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (hynny yw, canlyniadau; a
- **Phrosesau'r gyllideb** – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol?

Rydym wedi nodi nifer o feysydd yr hoffem weld y gwaith craffu yn canolbwyntio arnynt, sef:

- *Dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hwn wrth ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar).*
- *Polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi, lliniaru effeithiau diwygio lles a pharatoi ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio*
- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau*
- *Trefniadau ariannol byrddau iechyd lleol*
- *Paratoi i'r DU adael yr UE*
- *Cyllidebu carbon isel a pharatoi ar gyfer Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol*
- *Paratoi ar gyfer effaith y datganoli pellach sy'n rhan o Fil Cymru*
- *Effaith rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac a oes digon o adnoddau ar gyfer ei rhoi ar waith.*
- *Craffu ar y Gymraeg, cydraddoldeb a chynaliadwyedd.*

Anogir chi i ddefnyddio rhai o'r meysydd hyn fel ffocws eich gwaith craffu ar y gyllideb.

**Ymgynghoriad drafft y gyllideb**

Fel yn y gorffennol, rydym yn ymgynghori yn ystod toriad yr haf.  Hefyd, rydym yn bwriadu cael math o 'sgwrs ar y cyfryngau cymdeithasol' pan fydd y gyllideb ddrafft wedi'i chyhoeddi, a fydd yn galluogi rhanddeiliaid i fynegi barn ychwanegol ar y ffigurau a gyhoeddir o fewn y gyllideb ddrafft.  Rydym yn eich gwahodd i dynnu sylw'ch rhanddeiliaid at ein hymgynghoriad.

**Amserlen**

Fel y gwyddoch erbyn hyn, mae'r dyddiadau ar gyfer y gyllideb ddrafft bellach wedi'u cytuno fel a ganlyn:

- Gosod y Gyllideb Ddrafft – 18 Hydref
- Y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad – 29 Tachwedd (5 wythnos eistedd/6 wythnos i gyd)
- *Y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft – 6 Rhagfyr*
- Cyflwyno Cynnig y Gyllideb Flynyddol – 20 Rhagfyr

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.10, os bydd eich Pwyllgor am gyflwyno adroddiad ar y gyllideb, byddai'n dda cael yr ymateb erbyn dydd Gwener 18 Tachwedd.

Yn olaf, os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor Cyllid ar 0300 200 6372, neu [Bethan.Davies@Cynulliad.Cymru](mailto:Bethan.Davies@Cynulliad.Cymru) .

Yn gywir



**Simon Thomas**

**Cadeirydd**

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Gorffennaf 2016

Annwyl Gadeirydd

**Datganiadau Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn**

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Pwyllgor Busnes wedi dechrau trafod sut y gellir sicrhau mwy o amrywiaeth yn ystod amser y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Ysgogwyd hyn yn rhannol gan adroddiad etifeddiaeth Pwyllgor Busnes y Pedwerydd Cynulliad, a oedd yn cynnwys yr argymhelliad a ganlyn:

"Dylai'r Pwyllgor Busnes newydd ystyried amserlennu busnes mwy amrywiol yn ystod amser nad yw ar gyfer y Llywodraeth, gan gynnwys mwy o fusnes pwyllgorau i wella integreiddio rhwng y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau. Gallai mathau o fusnes gynnwys, er enghraifft, datganiadau ar ddechrau ymchwiliadau pwyllgor, adroddiadau blynyddol gan bwyllgorau, pynciau dadleuon a ddewisir gan bobl ifanc a rhanddeiliaid eraill, a chyfres o ddadleuon ar thema benodol."

Rwy'n rhannu'r farn y gellir defnyddio amser yn y Cyfarfod Llawn yn fwy effeithiol. Yn ystod tymor yr hydref, byddaf yn cyflwyno cynigion i Reolwyr Busnes eu hystyried, gyda'r bwriad o ehangu ar gyfleoedd i Aelodau graffu ar y Llywodraeth a chynrychioli eu hetholwyr.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Busnes wedi gwneud penderfyniad cynnar y byddai'n hoffi gweld mwy o integreiddio rhwng y Cyfarfod Llawn a gwaith y pwyllgorau, ac mai un ffordd o wneud hynny fyddai galw ar Gadeiryddion pwyllgorau i wneud datganiadau yn y Cyfarfod Llawn o bryd i'w gilydd ynghylch gwaith a blaenoriaethau eu pwyllgorau. Er mai rôl i'r Cadeiryddion, mewn ymgynghoriad â'u pwyllgorau, yw penderfynu pryd yr hoffent wneud datganiad, mae'r cyfleoedd yr hoffem eu hannog yn y lle cyntaf yn cynnwys dechrau ymchwiliadau, o bosibl er

mwyn helpu i lywio gwaith y pwyllgor, ar ôl gorffen gwaith dilynol, neu pan fydd pwyllgor yn ystyried ei raglen waith ar gyfer y cyfnod sydd i ddod.

Credwn y byddai datganiadau o'r fath yn adnodd defnyddiol i godi proffil gwaith pwyllgorau ymysg Aelodau eraill a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, ac yn caniatáu mwy o ymgysylltiad ag ymchwiliadau'r Pwyllgor, a dealltwriaeth o'r ymchwiliadau hyn, gan y rhai nad ydynt yn gysylltiedig â hwy yn uniongyrchol.  Os defnyddir y datganiadau hyn mewn modd priodol, rydym yn hyderus y gallai datganiadau o'r fath, a'r ymatebion iddynt, fod yn ddull gwerthfawr o lywio gwaith a blaenoriaethau'r pwyllgorau.  Byddai diben y datganiadau hyn, felly, yn wahanol i ddiben y dadleuon ar adroddiadau pwyllgor, sy'n nodwedd gyfarwydd o fusnes y Cynulliad yr ydym am iddi barhau.

Mae'r Pwyllgor Busnes yn cyfarfod bob wythnos i gytuno ar drefn busnes y Cynulliad, ac er y gellir gwneud datganiadau heb rybudd gyda fy nghaniatâd, byddem fel arfer yn disgwyl i unrhyw gais i neilltuo amser ddod i law o leiaf wythnos cyn gwneud y datganiad er mwyn i'r eitem ymddangos ar y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried sut y gallech chi a'ch Pwyllgor ddefnyddio datganiadau mewn Cyfarfod Llawn, a byddwn yn eich annog i gynnig datganiadau yn y dyfodol agos.  Yr wyf yn ymwybodol bod nifer o bwyllgorau yn lansio ymchwiliadau newydd ac yn penderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer tymor yr hydref, felly mae'r cyfnod i ddod yn cynnig cyfle perffaith i dreialu datganiadau pwyllgor.  Gobeithiaf y gallwch chwarae eich rhan mewn sicrhau llwyddiant y fenter hon.

Elin Jones

Elin Jones AC, Llywydd y Cynulliad
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

25 Awst 2016

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

**Y goblygiadau i Gymru oherwydd i'r DU benderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd**

Fel y gwyddoch, sefydlwyd pwyllgor polisi a deddfwriaeth ychwanegol i leihau'r pwysau ar bwyllgorau eraill ac i graffu ar faterion eraill sydd o bwys i'r cyhoedd.

Gwnaeth y Rheolwyr Busnes ailystyried cylch gwaith y pwyllgor hwn yn sgil canlyniad Refferendwm yr UE, gan gytuno y dylai flaenoriaethu gwaith ar yr effaith y bydd gadael yr UE yn ei chael ar Gymru.

O ganlyniad, newidiwyd ei enw i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ('y Pwyllgor Materion Allanol').

Hoffwn dynnu eich sylw at y cylch gwaith dros dro a gynigir gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer y Pwyllgor Materion Allanol:

1. Archwilio'r goblygiadau i Gymru oherwydd i'r Deyrnas Unedig benderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ystod y broses adael, mewn unrhyw berthynas newydd â'r UE ac yn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPDWG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPDWG
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddRPL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddRPL
0300 200 6565

nhrefniadau gwledydd y DU ar ôl gadael ar gyfer materion perthnasol o ran polisi, cyllid a deddfwriaeth.

2. Cydlynu gweithgarwch ar draws pwyllgorau'r Cynulliad mewn perthynas â phwynt 1 uchod.
3. Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.8 i 21.11.
4. Ystyried unrhyw fater arall, gan gynnwys deddfwriaeth, a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

Mae rhagor o wybodaeth yn adroddiad y Pwyllgor Busnes ar ddiwygio cylch gwaith y Pwyllgor, sydd wedi'i amgáu gyda'r llythyr hwn.


Bydd y Pwyllgor Busnes yn cyflwyno cynnig i ddiwygio cylch gwaith y Pwyllgor Materion Allanol yn ffurfiol er mwyn i'r Cynulliad gytuno arno ddydd Mercher 14 Medi 2016.

Bydd angen i ni arfer dull cydlynol wrth i wahanol bwyllgorau'r Cynulliad graffu ar y materion hyn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi a yw eich pwyllgor yn bwriadu gwneud unrhyw waith sy'n ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE, neu unrhyw agwedd arall ar ein cylch gwaith. Hoffwn hefyd gynnig gwahoddiad agored i chi fynychu unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor Materion Allanol sy'n ymwneud â materion sy'n rhan o gylch gwaith eich pwyllgor chi.

Rwy'n edrych ymlaen at ddatblygu perthynas waith adeiladol â chi wrth i'r gwaith pwysig hwn fynd yn ei flaen.

Yn gywir,



David Rees AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon